

# **Grŵp Cyngori Gweinidogol Anabledd Dysgu**



**Nodiadau o'n trydydd cyfarfod ar 10  
Medi 2019**



## **Pobl a ddaeth i'r cyfarfod**

- Sophie Hinksman – Cydgadeirydd
- Adrian Burke – Cartrefi Cymunedol Cymru
- Rebecca Cicero – Gofal Cymdeithasol Cymru
- Wayne Crocker – Mencap Cymru
- Lynne Evans – Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan
- Julian Hallett – Cymdeithas Syndrom Down
- Edwin Jones – Cymuned Ymarfer ym maes Ymddygiad Heriol
- Dermot McChrystal – Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg
- Michelle Martin – Fforwm Gofal Cymru
- Emma Mulinder – Penaethiaid Gwasanaethau i Oedolion Cymru Gyfan
- Ruth Northway – Prifysgol De Morgannwg
- Joe Powell – Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan

- Zoe Richards – Anabledd Dysgu Cymru
- Hayley Tarrant – Pwyllgor Nyrsio a Bydwreigiaeth Cymru
- Oliver Townsend – Cymorth Cymru
- Michelle Williams – Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan
- Sharon Williams – Iechyd Cyhoeddus Cymru

### **Eraill:**

- Tracey Drew – yn cefnogi Sophie
- Dawn Price – yn cefnogi Lynne
- Catherine Thornton – yn cefnogi Michelle
- Jo Griffin – presennol ar ran Christine Griffiths
- Kate Young – presennol ar ran Pauline Young
- Kelly Stuart – Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan

### **Swyddogion:**

- Karen Eveleigh – Gwella Bywydau Pobl ag Anabledd Dysgu
- Andrew Stevenson – Gwella Bywydau Pobl ag Anabledd Dysgu
- Natalie Hughes-Owens – Gwella Bywydau Pobl ag Anabledd Dysgu
- Alyson Collins – Gwasanaethau Cymdeithasol a Chyfuno

### **Pobl a ddaeth i siarad am bethau ar y rhaglen:**

- Rhidian Jones a Dan Jones i siarad am Gyfalaf (Tai) Cronfa Gofal Integredig
- Shelly Davies a Sam Bufton i siarad am Gyllid Cronfa Gofal Integredig



## Pobl oedd ddim yn medru dod

- Suzanne Clifton
- Christine Griffiths
- Jane Rodgers
- Jason O'Brien
- Pauline Young
- Emma Curtis
- Hazel Powell

### 1. Croeso a chyflwyniad



Croesawodd Sophie bawb. Gofynnodd i bobl ddweud eu henwau a dweud i bwy roedden nhw'n gweithio. Fe wnaeth pawb hyn.



Darllenodd Sophie y rheolau ar gyfer ein cyfarfodydd. A gofynnodd i bawb wrando a pharchu ei gilydd.

## 2. Beth ddigwyddodd yn y cyfarfod diwethaf



Fe ddarllenon ni'r cofnodion o'r cyfarfod diwethaf a chytuno bod y rhain yn gywir. Ac fe gytunon ni fod y pethau i'w gwneud yn gywir.



Dywedodd Dermot y gallwn ni ddal i ddweud ein syniadau ynghylch athrawon yn defnyddio llai o **arferion cyfyngol** wrtho.



Yn ystod y cyfarfod diwethaf fe siaradon ni am drawsnewid. Dywedon ni nad oedden ni'n hoffi'r gair **trosglwyddo**. Ac y dylen ni ddal ati i ddefnyddio'r gair **trawsnewid**.



Rhannwyd hyn â'r Tîm Iechyd Plant fydd yn dweud **trosglwyddo trawsnewid** am y tro. Dydy rhai aelodau yn dal ddim yn hoffi'r geiriau hyn.

## Pethau i'w gwneud



Bydd **Karen** yn edrych ar adroddiad **Rhaglen Gwella Bywydau Pobl ag Anabledd Dysgu**.

Bydd hi'n anfon unrhyw bethau i'w gwneud sy'n ymwneud ag **arferion cyfyngol** at Dermot.



Bydd **Oliver** yn dod o hyd i'r holl wybodaeth sydd gennym am **Gefnogi Ymddygiad Cadarnhaol**. A sut y gall helpu i rwystro **Profiadau Niweidiol Plentyndod**.



Bydd **Karen** yn ein diwedddaru ni ynglŷn â'r grŵp ymchwilio a phrisio gwerth yng nghyfarfod mis Rhagfyr.



Bydd **Alyson** yn anfon log o'r pethau i'w gwneud aton ni.

### 3. Cronfa Gofal Integredig



Cyn y cyfarfod, anfonodd Alyson bapurau aton ni'n ymwneud â'r **Gronfa Gofal Integredig (ICF)**. Roedd papurau newydd yn y cyfarfod hefyd sydd ddim wedi eu gorffen eto.



Dywedodd Rhidian Jones a Dan Jones fod arian cyfalaf y Gronfa Gofal Integredig yn cael ei ddefnyddio i adeiladu tai newydd. Ac fel arian i bobl gael gwneud newidiadau i'w tai nhw.



Rydyn ni'n hapus bod mwy o arian yn mynd ar gyfer tai newydd i bobl sydd angen cefnogaeth ychwanegol. Ac y buasai'r arian yn helpu pobl i fyw'n agosach at gartref.



Gofynnodd Oliver pwy fuasai'n gyfrifol am edrych dros yr adeiladau ar ôl iddyn nhw gael eu gorffen. Dywedodd Rhidian a Dan mai'r bobl oedd wedi gwneud cais am i'r tai gael eu hadeiladu neu eu newid.



Eglurodd Shelley Davies beth y mae **Rhaglen Gyllid y Gronfa Gofal Integredig** yn ei wneud. Ac yn 2019-2020 bydd bron i £125 miliwn yn cael ei roi yn y cynllun.



Dywedodd hi hefyd y bydd **adroddiad blynyddol y Gronfa Gofal Integredig** cyntaf yn dod allan yn hwyrach y flwyddyn hon. Bydd yn rhoi mwy o wybodaeth am wahanol brosiectau.



Bydd aelodau yn e-bostio Alyson gydag unrhyw sylwadau neu gwestiynau am **Raglen Cyfalaf y Gronfa Gofal Integredig**. Neu am **Raglen Gyllid y Gronfa Gofal Integredig**.



Bydd Alyson yn anfon y rhain aton ni:

- **Adroddiad Data Cyllid y Gronfa Gofal**
- **Adroddiad Blynyddol Cyllid y Gronfa Gofal**

pan fyddan nhw'n dod allan yn hwyrach y flwyddyn hon.

## 4. Gwneud Rhaglen Gwella Bywydau Pobl ag Anabledd Dysgu yn well ar ôl 'Whorlton Hall'



Ar ôl 'Whorlton Hall' edrychodd **Cymuned Ymarfer ym maes Ymddygiad Heriol** ar adroddiad **Rhaglen Gwella Bywydau Pobl ag Anabledd Dysgu**.



Dywedon nhw fod gennym ni ddigon o reolau i rwystro camdriniaeth rhag digwydd. Y broblem yw bod:



- Rhai pobl ddim yn dilyn y rheolau.



- Nid yw pobl ag anabledd dysgu yn cael eu cynnwys digon pan fyddwn ni'n ceisio gwneud gwasanaethau'n well.



I wneud pethau'n well mae arnon ni angen:



- Ffordd hawdd i deuluoedd a staff siarad am bethau a all droi'n broblemau. Cyn iddyn nhw fynd yn waeth.



- Ffyrdd clir o **gadw pobl yn ddiogel**. Fel staff a phobl yn gallu dweud wrth rywun os ydyn nhw'n poeni am rywun neu rywbeth.



Dywedon nhw y gallen ni ddefnyddio'r geiriau **codi pryderon** yn lle **chwythu'r chwiban**.

Fe siaradon ni am lawer o bethau a gododd yn yr adroddiad gan gynnwys y pethau hyn:



- Nid ydy pobl sy'n cael **Gofal lechyd Parhaus** yn gallu cael **Taliadau Uniongyrchol**.



- Dylai gweithwyr gofal feddwl bod eu gwaith yn bwysig. Dylen nhw gael mwy o gyfleoedd i ddysgu a datblygu.



A dylai pob gweithiwr gofal gael eu henw wedi'i roi ar gofrestr er mwyn i ni wybod eu bod nhw'n dda.



Roedd y rhan fwyaf o bobl yn meddwl bod hyn yn syniad da. Roedd Kate yn poeni y gallai cael cofrestr droi pobl oddi ar y syniad o fod yn weithiwr gofal a gofalu am bobl. Yn enwedig teulu a ffrindiau.



- Soniodd Rebecca fod **Gofal Cymdeithasol Cymru** yn ceisio dod i wybod sut i gadw gweithwyr gofal yn eu gwaith am gyfnod hirach. Ac maen nhw'n gofyn i bobl beth maen nhw'n feddwl.



Dywedodd hi hefyd mai Wythnos Gofal yw hi. Ac fe allwn ni anfon ein storïau ati hi ynghylch pethau da sydd wedi digwydd sy'n ymwneud â gofal.



- Mae angen ar i **Gomisiynwyr** ddal ati i edrych a yw lleoliadau pobl yn iawn ar eu cyfer nhw.



Dyweddodd y grŵp eu bod nhw'n cytuno â'r syniadau oedd gan **Gymuned Ymarfer ym maes Ymddygiad Heriol**.



Dyweddodd Karen y byddai'n gweld beth y mae mudiadau eraill ac arbenigwyr yn ei feddwl. Yn enwedig pobl sy'n gweithio i'r GIG.



### Pethau i'w gwneud

Bydd **Alyson** yn anfon dogfen ymgynghori Gofal Cymdeithasol Cymru aton ni.



Bydd **aelodau** yn anfon storïau at Rebecca am bethau sy'n mynd yn dda mewn gofal cymdeithasol. Er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth am Wythnos Gofal.



Bydd **Rebecca** a **Karen** yn cytuno ar y geiriad cywir ynghylch cofrestru gweithwyr gofal a chynorthwyr personol.



Bydd **Edwin** yn anfon gwybodaeth at Dermot ynghylch [Cefnogi Ymddygiad Cadarnhaol](#) ac addysg.




Bydd **Karen** ac **Andrew** yn edrych i mewn i ddiweddaru adroddiad **Rhaglen Gwella Bywydau Pobl ag Anabledd Dysgu**. Gan gynnwys syniadau gan:

- Gymuned Ymarfer ym maes Ymddygiad Heriol
- Aelodau Grŵp Cyngori Gweinidogol ym maes Anabledd Dysgu (GCGAD)
- Yr Uned Genedlaethol ar Gomisiynu Cydweithredol – sy'n edrych a yw lleoliadau gofal yn ddigon da.


## 5. Diweddariad ar y pethau i'w gwneud ym maes iechyd yn rhaglen Gwella Bywydau Pobl ag Anabledd Dysgu



Dywedodd Karen fod **Yr Uned Genedlaethol ar Gomisiynu Cydweithredol** yn gwneud archwiliad o leoliadau gofal yng Nghymru a Lloegr. Mae'r lleoliadau ar gyfer plant ac oedolion ag anableddau dysgu neu faterion iechyd meddwl.



Mae'r adroddiad ar leoliadau plant wedi'i orffen ac mae Llywodraeth Cymru yn edrych arno fe.



Bydd yr adroddiad ar leoliadau i oedolion yn barod ym mis Hydref. Pan fydd wedi'i orffen byddwn yn ysgrifennu cynllun gweithredu i'w roi i'r Gweinidog.



Dywedodd Karen y gallen ni roi syniadau'r **Gymuned Ymarfer ym maes Ymddygiad Heriol** gyda'r cynllun gweithredu hwn. Wedyn gallai'r holl waith hwn gael ei wneud gyda'i gilydd.



Ni allai **Pwyllgor Meddygon Teulu Cymru** gytuno â'r newidiadau i'r Archwiliad Iechyd Blyneddol yr oedd ar Llywodraeth Cymru ei eisiau.



Dywedodd aelodau nad oedden nhw'n hapus i glywed y newyddion hyn.

Fe gytunon nhw y buasen nhw'n ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ddweud hyn wrtho. A gofyn iddo fe wneud yn siŵr eu bod yn cytuno â'r newidiadau y flwyddyn nesaf.



Mae fîm **1000 o Fywydau Pobl ag Anabledd Dysgu** yn **Iechyd Cyhoeddus Cymru** yn mynd i edrych sut y mae Archwiliadau Iechyd Blyneddol yn gweithio mewn rhannau eraill o'r DU.



Dywedodd Karen fod ar Lywodraeth Cymru a'r GIG yn dal eisiau cael o leiaf tri allan o bedwar o bobl ag anabledd dysgu i gael archwiliad Iechyd bob blwyddyn.





Hefyd mae ar Lywodraeth Cymru a'r GIG eisiau i fwy o bobl ag anabledd dysgu gofrestru gyda meddyg.



Dywedodd Lynne Evans fod **Pobl yn Gyntaf Rhondda Cynon Taf** wedi edrych ar **rwystrau** o ran iechyd ar gyfer pobl ag anabledd dysgu yng Nghwm Taf.



### Pethau i'w gwneud

- Bydd **Edwin, Emma, Joe, Kate, Oliver** a **Zoe** yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Iechyd Cyhoeddus Cymru i wneud cynllun gweithredu.



- Bydd **Zoe** yn ysgrifennu llythyr at y GCGAD i'w anfon at y Gweinidog. Bydd Natalie yn ei anfon at y grŵp yn gyntaf fel ein bod yn cael cyfle i roi sylwadau.



- Bydd Lynne Evans yn rhannu'r pethau y daeth Cwm Taf i wybod amdany'n nhw yngylch y **rhwystrau** i iechyd pobl ag anabledd dysgu.

## 6. Cydgadeirydd newydd y Grŵp Cynghori Gweinidogol ym maes Anabledd Dysgu



Mae Humie Webbe wedi cytuno â bod yn gydgadeirydd ar gyfer y GCGAD. Fe fydd hi'n cydgadeirio ei chyfarfod cyntaf gyda Sophie ym mis Rhagfyr.



Dywedodd Humie y buasai'n hoffi cael cyfarfod hamddenol gydag aelodau GCGAD cyn cyfarfod mis Rhagfyr. Cytunodd aelodau â hyn.



### Pethau i'w gwneud

- Bydd **Alyson** yn anfon rhagor o wybodaeth aton ni am Humie.



- Mae **Alyson** hefyd wedi cynllunio cinio hamddenol i ni gyda Humie. Bydd yn digwydd ar:

Ddydd Gwener 8<sup>fed</sup> Tachwedd, 12.00pm – 2.00pm Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd.



## 7. Y Dirprwy Weinidog yng nghyfarfod mis Rhagfyr y GCGAD



December

4

Mae'r Dirprwy Weinidog yn dod i gyfarfod mis Rhagfyr y GCGAD.

Dywedodd Sophie mai'r ffordd orau i ddefnyddio'r amser fuasai trwy siarad am y prif faterion sy'n bwysig i bobl ag anabledd dysgu.

Cytunodd aelodau mai'r pedwar prif fater y mae arnon ni eisiau siarad amdyn nhw yw:



- Na fuasai unrhyw un ag anabledd dysgu yn gorfod gadael Cymru i gael cefnogaeth.



- Cludiant.



- Gwasanaethau iechyd a gwasanaethau gofal cymdeithasol yn gweithio gyda'i gilydd mewn ffordd well.



- Talu am ofal cymdeithasol yng Nghymru.



### Pethau i'w gwneud

- Bydd **aelodau** yn anfon pethau y mae arnyn nhw eisiau siarad amdanyn nhw at Alyson ar gyfer y pedwar mater hwn.

## 8. Unrhyw Fusnes Arall



Dywedodd Karen nad yw'r ystafell gyfarfod yn ddigon da am nad oes ganddi hi gyfrifiadur.



Yn 2020 bydd ar bob cyfarfod angen bod mewn ystafell gyda chyfrifiadur. Gofynnodd Karen i aelodau ddweud os ydyn nhw'n gwybod am unrhyw leodd da i gael y cyfarfod.



Gofynnodd Karen hefyd a ddylen ni gynnal cyfarfodydd y tu allan i Gaerdydd. Nid oedd aelodau'n meddwl bod hyn yn syniad da oherwydd bod y rhan fwyaf o fudiadau wedi'u lleoli yn agos at Gaerdydd. Ac mae'r cludiant yn dda.



Siaradodd Joe am **Gytundebau Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol**. Mae hyn yn meddwl bod rhai cyngorau am roi arian i wasanaethau **eiriolaeth** yn unig.



Mae **Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan** yn poeni y bydd cynghorau yn rhoi'r gorau i roi arian i grwpiau **hunaneiriolaeth**.



Roedd **Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan** yn teimlo y byddai hyn yn rhoi llai o ddewis i bobl ag anableddau dysgu. A llai o reolaeth dros eu bywdau nhw.



#### **Pethau i'w gwneud:**

Bydd **Joe** yn cyfarfod â **Ruth Akers** sy'n gweithio ar eiriolaeth yn Llywodraeth Cymru. Bydd yn siarad am bryderon y grŵp ynglŷn â nawdd.



Dywedodd **Kate** a **Julian** y buasen nhw'n hapus i ysgrifennu llythyrau cefnogi ar gyfer Joe os oedd arno fe eisiau.



Bydd **Albert** yn cyfarfod â Chyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol ac yn siarad â nhw am **hunaneiriolaeth**. Bydd **Karen** yn dweud wrth y grŵp am hyn yng nghyfarfod mis Rhagfyr.



Diweddariad ar yr ystafell gyfarfod: rydyn ni'n awr wedi dod o hyd i ystafelloedd cyfarfod gyda chyfrifiaduron yn adeiladau Llywodraeth Cymru yng Nghaerdydd.

## 9. Cyfarfodydd yn y dyfodol

Bydd y cyfarfod nesaf **ddydd Mercher 4 Rhagfyr 2019**.



Bydd yn cychwyn am 9.45am am fod y Dirprwy Weinidog yn dod.

### Diweddariad

Nid yw'r Dirprwy Weinidog yn gallu dod i'r cyfarfod ym mis Rhagfyr yn awr. Bydd hi'n dod i gyfarfod mis Mawrth.



Yn 2020 bydd y cyfarfodydd:

- Ddydd Mercher 25<sup>ain</sup> Mawrth
- Ddydd Mawrth 9<sup>fed</sup> Mehefin
- Ddydd Mawrth 8<sup>fed</sup> Medi
- Ddydd Mawrth 8<sup>fed</sup> Rhagfyr



Bydd holl gyfarfodydd 2020 yn Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd.

Bydd y cyfarfodydd yn cychwyn am 11am tan 3pm.